# MORGAN, CHARLES LANGBRIDGE ('Menander '; 1894 - 1958), nofelydd, dramodydd

**Enw:** Charles Langbridge Morgan
**Ffugenw:** Menander
**Dyddiad geni:** 1894
**Dyddiad marw:** 1958
**Priod:** Hilda Campbell Morgan (née Vaughan)
**Plentyn:** Elizabeth Shirley Vaughan Paget (née Morgan)
**Rhiant:** Mary Morgan (née Watkins)
**Rhiant:** Charles Langbridge Morgan
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** nofelydd, dramodydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio
**Awdur:** Mary Auronwy James

Ganwyd 22 Ionawr 1894, yn blentyn ieuangaf Syr Charles Langbridge Morgan, peiriannydd, a Mary (ganwyd Watkins) ei wraig. Ymfudodd ei deidiau o Sir Benfro i Awstralia lle y priododd ei rieni. Ymunodd â'r Llynges yn 1907 gan ddod yn swyddog cyn ymddiswyddo yn 1913 i ennill ei fywoliaeth wrth lenydda, er iddo ddychwelyd i'r llynges yn ystod y ddau Ryfel Byd. Aeth i Goleg y Trwyn Pres, Rhydychen, 1919-21, a graddio. Yna ymunodd â'r *Times*, gan ddod yn enwog fel gohebydd beirniadol ar y ddrama, 1926-39. Derbyniodd lawer gradd er anrhydedd. Yr oedd yn un o aelodau dethol estron l'Institut de France; etholwyd ef yn llywydd yr English Association 1953-54 a'r Gyngres Lenyddol Ryngwladol i Awduron 1954-56. Ac eithrio'i ddwy nofel gyntaf, ysgrifennodd gyfres ddi-dor o gampweithiau llenyddol arbennig o artistig, o arwyddocâd dwfn, a'u traethiad yn rymus ac amrywiol. Dyfarnwyd iddo wobr Femina-Vie Heureuse am *Portrait in a Mirror* (1929); gwobr Hawthornden am *The Fountain* (1932); a gwobr goffa James Tait Black am *The Voyage* (1940). Dramodwyd *The River Line* (1949) a'i chynhyrchu yng ngwyl Caeredin yn 1952.

Yn Llundain y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Trwy ei wraig, Hilda Campbell Vaughan o Lanfair-ym-Muallt, nofelydd a briododd, 6 Mehefin 1923, ac a ddug iddo fab a merch (Ardalyddes Môn), y daeth, o bosib, i gysylltiad agosaf â Chymru. Cyfansoddwyd ei ddrama gyntaf, *The Flashing Stream* (1938), tra oedd ar wyliau ger Llyn Syfaddan, Brycheiniog. Treuliodd ddau gyfnod hir yn Sir Benfro hefyd, pryd yr ysgrifennodd *A breeze of morning* (1951). Ysgrifennodd hanes cwmni Macmillan (1943); cyhoeddwyd casgliad o'i ddarlithiau ac ysgrifau wedi ei farwolaeth yn *The writer and his world* (1960). Bu farw 6 Chwefror 1958.

## Awdur

**Dr Mary Auronwy James**

## Ffynonellau

*Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price*

*Who was who?*

Eiluned Lewis, *Selected letters of Charles Morgan with a memoir* (1967)

Henry Charles Duffin, *The novels and plays of Charles Morgan* (Llundain 1959)

D. Crystal, *The Cambridge Biographical Dictionary* (Caergrawnt 1994)

*Times Literary Supplement Index*

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76404437

Wikidata: Q1065287

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu